OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 860 (Cy.107)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *25 Mawrth 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *6 Ebrill 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 457(4)(b)(iii) a 569 o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**).

### Enw, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 6 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn —

mae i "Credyd Treth i Blant" a "Credyd Treth i Bobl sy'n Gweithio" yr ystyr a roddir i "*Child Tax Credit*" a "*Working Tax Credit*" yn Neddf Credydau Treth 2002(**3**).

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996; ac

ystyr "incwm blynyddol" ("*annual income*") yw yr incwm am y flwyddyn dreth sydd yn cael ei gyfrifo yn unol â Rheoliadau Credydau Treth (Diffinio a Chyfrifo Incwm) 2002(**4**)).

(**1**) 1996 p.56. (Diwygir adran 457 (4)(b) yn rhagolygol gan adran 200 o Ddeddf Addysg 2002 (p.32) ac mae i ddod i rym ar 31 Mawrth 2003 yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/3185) (Cy.301) (C.107)). I gael ystyr 'prescribed' a 'regulations' gweler adran 579(1) .

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 211(1) a (2) o Ddeddf Addysg 2002.

(**3**) 2002 p.21.

(**4**) O.S. 2002/2006. Mae incwm blynyddol person sydd yn cael ei gyfrifo yn unol â'r rheoliadau hynny yn cynnwys incwm partner y person hwnnw os oes cais ar y cyd i dderbyn Credyd Treth i Blant.

### Budd-dâl neu Lwfans Rhagnodedig

**3.** Mae cymorth a ddarperir i riant o dan Ran 6 o Ddeddf Llochesu a Mewnfudo 1999(**5**) yn cael ei ragnodi ar gyfer dibenion adran 457(4)(b)(iii) o Ddeddf 1996.

### Credydau Treth Rhagnodedig

**4.** Rhagnodir Credyd Treth i Blant at ddibenion adran 457(4)(b)(iii) o Ddeddf 1996 o dan yr amgylchiadau canlynol:

(a) pan fydd gan riant hawl i Gredyd Treth i Blant ond nid i Gredyd Treth i Bobl sy'n Gweithio, a

(b) pan fod y rhiant yn derbyn Credyd Treth i Blant drwy rinwedd dyfarniad sydd wedi ei selio ar incwm blynyddol heb fod yn fwy na'r swm a bennwyd at ddibenion adran 7(1)(a) o Ddeddf Credydau Treth 2002 fel trothwy incwm ar gyfer Credyd Treth i Blant(**6**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**).

*D. Elis-Thomas*

25 Mawrth 2003 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1999 p.33.

(**6**) £13,230 yw'r swm a bennwyd mewn perthynas a Credyd Treth i Blant o 6 Ebrill 2003 ymlaen, yn sgil rheoliad 3(3) o Reoliadau Credydau Treth (Trothwyau Incwm a Phennu Cyfraddau) 2002 (O.S. 2002/2008).

(**7**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 457 o Ddeddf Addysg 1996 yn gofyn bod gan ysgolion bolisi ar waith, ar gyfer peidio â chodi unrhyw dâl sydd fel arall yn daladwy mewn perthynas â bwyd a llety i ddsigyblion penodol ar deithiau preswyl. Mae'n rhaid bod y polisi peidio â chodi unrhyw dâl yn gymwys i ddisgybl y mae ei riant yn derbyn budd-dâl neu lwfans penodol, neu y mae ei riant â hawl i gredydau treth penodol, sydd wedi eu rhagnodi ar gyfer dibenion yr adran.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi at ddibenion adran 457 cymorth a ddarperir o dan Ran 6 o Ddeddf Llochesu a Mewnfudo 1999. Maent hefyd yn rhagnodi Gredyd Treth i Blant, ar y yr amod nad yw'r rhiant yn derbyn Credyd Treth i Bobl sy'n Gweithio, a bod y dyfarniad o credyd Treth i Blant wedi ei selio ar incwm blynyddal heb fod yn fwy n'ar swm a bennwyd at ddibenion adran 7(1)(a) o Ddeddf Credydau Treth 2002 (sef 13,320 ar hyn o bryd).